Martyn Lloyd-Jones, 1899–1981
Pregethwr, esboniwr Beiblaidd ac awdur

Yr ail o dri mab Henry a Margaret oedd Martyn Lloyd-Jones, a phan aned ef ar 20 Rhagfyr 1899 yr oedd ei dad yn cadw siop ar Donald Street, y Rhath, Caerdydd. Ym 1905 gwerthodd ei dad y busnes gan brynu siop yn Llangeitho, ac yn ysgol gynradd y pentref hwnnw y cychwynnodd Martyn ar ei yrfa academaidd. Er bod ei fam a'i dad yn gallu'r Gymraeg, Saesneg oedd iaith yr aelwyd, a phan aeth i Langeitho yr oedd yn ddi-Gymraeg, ond buan y dysgodd yr iaith gan ddod yn gwbl rugl. Er mai Annibynnwr oedd ei dad, mynychent gapel y Methodistiaid Calfinaidd yn y pentref gan mai hwnnw oedd yr unig un oedd yno. Pan gynhaliwyd dathliadau daucanmlwyddiant geni Daniel Rowland gan Sasiwn y De fe gafodd Martyn Lloyd-Jones ei gyffwrdd gan bregethu grymus yn rhai o'r cyfarfodydd.

Aeth i Ysgol Uwchradd Tregaron a phenderfynu mynd yn feddyg. Gwaetha'r modd aeth ei dad yn fethdalwr a bu newid mawr yn amgylchiadau'r teulu. Prynodd ei dad fusnes gwerthu llefrith yn Llundain ac fe symudodd y teulu yno ym 1914 gan ymaelodi yn eglwys Gymraeg Charing Cross. Bu'r busnes yn llwyddiant ac fe aeth Martyn Lloyd-Jones i ysgol St Marylebone i orffen ei gyrsiau. Aeth yn fyfyriwr i Ysgol Feddygol Ysbyty St Bartholomew pan oedd ond yn un ar bymtheg oed. Cafodd yrfa addysgol ddisglair gan ennill graddau MRCS, LRCP, MBBS, MD ac MRCP, ac fe'i gwnaed yn Brif Gynorthwyydd Clinigol yr ysbyty. Gwnaeth waith ymchwil ar glefyd y galon ac erbyn ei fod yn bump ar hugain oed yr oedd ganddo glinig preifat ar Harley Street, Llundain.

Yn ogystal â mynychu capel Charing Cross byddai hefyd yn mynd i Gapel Westminster i wrando ar Dr Campbell Morgan. Ym 1923 daeth Dr John Hutton i fugeilio'r eglwys honno ac fe gyfareddwyd Martyn Lloyd-Jones gan ei bregethu cadarn. Teimlodd Martyn newid graddol yn ei galon a galwad i bregethu'r Efengyl a phenderfynodd newid trywydd. Pregethodd am y tro cyntaf mewn neuadd genhadol i Gymry yn Nwyrain Llundain. Ym

1926 priododd â Bethan Phillips, merch Dr Tom Phillips, arbenigwr llygaid yn Harley Street, a chawsant ddwy ferch, sef Elizabeth ac Ann. Ystyriodd fynd i goleg y Methodistiaid Calfinaidd yn Aberystwyth ond penderfynodd chwilio am le fel efengylydd ymhlith tlodion. Gwahoddwyd ef i Sandfields, Aberafon, a dechreuodd ar y gwaith ym 1927.

Cafodd un ar ddeg o flynyddoedd llwyddiannus yno ac fe gynyddodd aelodaeth yr eglwys o 146 i 514. Ym 1938 derbyniodd wahoddiad gan Dr Campbell Morgan i fynd i'w gynorthwyo yng Nghapel Westminster, a phan ymddeolodd Dr Morgan ym 1943 cymerodd Martyn Lloyd-Jones yr awenau. Datblygodd gyfarfodydd newydd, fel y gyfeillach ar nos Wener, ac anogwyd y gynulleidfa i aros yn y capel trwy gydol y Sul. Tyrrai gwrêng a bonedd i wrando ar ei bregethu Beiblaidd grymus a daeth llawer i gredu. Byddai dwy fil yn y gynulleidfa yn oedfa'r bore a'r nos. Yr oedd ei gyfraniad yn allweddol wrth sefydlu nifer o fudiadau fel Mudiad Efengylaidd Cymru, Inter-Varsity Fellowship, The Banner of Truth, Y Gynhadledd Biwritannaidd a'r London Bible College.

Bu cryn anghytuno yng Nghymru a Lloegr ynghylch ei alwad ddigyfaddawd ar i Gristnogion efengylaidd gefnu ar eu henwadau a chychwyn eglwysi newydd. Ymddeolodd o'r weinidogaeth ym 1968 gan barhau i fyw yn Llundain. Erbyn hyn y mae dros drigain o lyfrau a llyfrynnau o'i waith wedi eu cyhoeddi. Bu farw ar 1 Mawrth 1981 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent y Gelli, Castellnewydd Emlyn.